# GRIFFITH, WALTER (1819 - 1846), dadleuwr dros Fasnach Rydd

**Enw:** Walter Griffith
**Dyddiad geni:** 1819
**Dyddiad marw:** 1846
**Rhiant:** David Griffith
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** dadleuwr dros Fasnach Rydd
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Cyfraith; Barddoniaeth; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

ei dad oedd David Griffith o'r Blowty yn Ll n, gweinidog Annibynnol yn Nhalsarn (1814-30) ac wedyn siopwr ym Methesda hyd 1840, pan aeth yn weinidog i Riwabon (*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, iii, 228, iv, 30); bu farw yn 1843; ganwyd Walter Griffith yn Awst 1819), a phrentisiwyd ef i siopwr ym Methesda. Symudodd i weithio gyda hetiwr ym Manceinion, ac yno atynwyd ef i'r mudiad i ddiddymu'r Deddfau d. Penodwyd ef yn siaradwr cyflog yng Ngogledd Cymru dros yr ' Anti-Corn-Law League,' a bu'n cynnal cyfarfodydd yng ngwahanol siroedd Gwynedd; sgrifennai hefyd i'r *Dysgedydd* ar y pwnc, a chyhoeddodd bamffled, *Treth y Bara*, yn 1840. Bu farw yn Abergele yn 1846. Dan y ffugenw ' Gwallter Bach,' canodd gryn swm o brydyddiaeth.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


Hugh Derfel Hughes, *Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid* (1866), 97

*Y Dysgedydd*, 1840, 1841, am hanes y cyfarfodydd masnach rydd


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734557


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu